Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cynllun Blynyddol 2017-18

Gan gynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein blaenoriaethau a'n strategaeth tair blynedd

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Rhagair gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru





Mae'r Cynllun Blynyddol hwn ar gyfer 2017-18 yn adeiladu ar yr adborth y cawsom gan amrywiaeth eang o randdeiliaid i'r ddogfen ymgynghori ddiweddar **Strategaeth ddrafft i Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru 2017-2020**.

Ochr yn ochr â nifer o ddiwygiadau allweddol i'n rhaglenni gwaith, rydym wedi darparu disgrifiad o'r ffactorau yr ydym ni a'n rhanddeiliaid yn credu y bydd yn cael y dylanwad mwyaf dros y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith dros y tair blynedd nesaf, ac wedi ailddiffinio themâu strategol sy'n sail i sut y byddwn yn ymateb i'r amgylchedd hwnnw a chyflawni ein nod a'n hamcanion.

Un o'n blaenoriaethau allweddol yw datblygu dull gweithredu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn effeithiol. Un arall bydd addasu ein model ar gyfer y defnydd o adnoddau archwilio wrth baratoi ar gyfer cyflwyno cau cyfrifon Llywodraeth Leol yn gyflymach.

Mewn cyfnod o gyni parhaus, byddwn yn parhau i gymryd camau i gefnogi rheolaeth ariannol sector cyhoeddus cryf, a byddwn yn datblygu cynigion ar gyfer symleiddio a gwella cost-effeithiolrwydd ein trefniadau cyllid ein hunain.

Hefyd, rydym wedi rhoi pwyslais penodol yn y Cynllun ar bwysigrwydd y gwaith y gwnawn i gefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol, o ran gwaith pwyllgorau'r Cynulliad a phwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus, ac wrth ymateb i'r materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd a godir drwy ohebiaeth.

Wrth ddatblygu'r Cynllun, mae ein ffocws wedi'i sefydlu'n gadarn ar sicrhau bod gwaith yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni mwy o effaith byth, a bod y Bwrdd yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ei benderfyniad bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad uchel ei barch a reolir yn dda sydd yn lle gwych i weithio ynddo.

**Huw Vaughan Thomas**
Archwilydd Cyffredinol Cymru

**Isobel Garner**
Cadeirydd, ar ran Swyddfa Archwilio Cymru

Paratowyd Cynllun Blynyddol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2018, sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am ein strategaeth a'n blaenoriaethau dros y tair blynedd nesaf, ar y cyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 25(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru o dan adran 26 o Ddeddf Archwilio (Cymru) 2013.

Wrth baratoi'r ddogfen hon, rydym wedi ymgynghori ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, gan gynnwys pobl Cymru a'u cynrychiolwyr, cyrff cyhoeddus Cymru a'u cynrychiolwyr a staff Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud darpariaeth drwy Reol Sefydlog 18.11(i) i'w Bwyllgor Cyllid fod yn gyfrifol am ystyried y Cynllun Blynyddol a rhoi adroddiad i'r Cynulliad arno.

Os hoffech gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg ac fe wnawn ymateb yn yr iaith yr ydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500

E-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Pwy ydym ni a sut yr ydym yn gweithredu | 6 |
| Yr hyn yr ydym yn ei wneud | 7 |
| Sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru | 8 |
| Ein nod a'n hamcanion | 9 |
| Yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo | 10 |
| Ein strategaeth | 13 |
| Ein blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf | 14 |
| Ein rhaglenni gwaith arfaethedig | 15 |
| Mesur ein perfformiad ac adrodd arno | 16 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| 1 Prosiectau archwilio | 17 |
| 2 Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol | 21 |
| 3 Gwaith ar arferion da | 23 |
| 4 Ymgysylltiad a gweithgarwch ar y cyd | 24 |
| 5 Ein trefniadau llywodraethu ac arwain | 25 |
| 6 Ein defnydd o adnoddau | 27 |
| 7 Dangosyddion a thargedau perfformiad allweddol | 28 |

# Pwy ydym ni a sut yr ydym yn gweithredu


1 Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd allanol statudol y rhan fwyaf o sector cyhoeddus Cymru.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o'r arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru, gan gynnwys yr arian sy'n destun pleidlais flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff cyfrannau sylweddol o'r arian hwn eu trosglwyddo gan Lywodraeth Cymru i'r GIG ac i lywodraeth leol yng Nghymru.

3 Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi staff â chymwysterau proffesiynol ac yn defnyddio adnoddau eraill, gan gynnwys arbenigedd ychwanegol o gwmnïau cyfrifyddu yn y sector preifat, i sicrhau bod modd i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni ei swyddogaethau. Ar hyn o bryd, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi tua 250 o staff.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn defnyddio'r adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru i gyflawni archwiliadau annibynnol i ganfod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a'i gyfrifyddu'n briodol yng Nghymru.

## Ein gwerthoedd



# Yr hyn yr ydym yn ei wneud

**Mae archwilio'r sector cyhoeddus yn cynnwys:**

- **Rhoi barn ar y cyfrifon**
- **Ystyried a yw arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio at ddibenion wedi'u cymeradwyo (rheoleidd-dra)**
- **Ystyried sut mae busnes cyhoeddus yn cael ei gynnal (uniondeb)**
- **Archwilio a oes trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian**


5 Bob blwyddyn, bydd yr Archwilydd Cyffredinol, gan ddefnyddio adnoddau a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, yn cyflawni rhaglen eang a chymesur o waith archwilio allanol, ochr yn ochr â swyddogaethau eraill penodol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd yn ei raglen i sicrhau bod modd iddo ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg drwy ein gwaith archwilio, neu unrhyw faterion sy'n dod i'w sylw.

6. Mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol i archwilio gwariant cyhoeddus yn berthnasol ar draws gwahanol fathau o gyrff, ni waeth pwy sy'n cyflenwi'r gwasanaethau.


7 Rydym yn cyflawni ein gwaith yn unol â **Chod Ymarfer Archwilio** yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cod yn rhagnodi sut y dylid cyflawni swyddogaethau archwilio a swyddogaethau penodol eraill yr Archwilydd Cyffredinol. Mae hefyd yn ymgorffori yr hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ystyried yw'r arfer proffesiynol gorau.

8. Rydym yn nodi arferion da o'r holl waith archwilio a gyflawnir gan yr Archwilydd Cyffredinol a'u rhannu drwy'r **Gyfnewidfa Arfer Da** (adnodd am ddim ar y we) a chyfryngau eraill, gan gynnwys seminarau a gweminarau ar gyfer dysgu ar y cyd.

## Nodweddion gwerth am arian – darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd



# Sut yr ydym yn dilyn y bunt gyhoeddus yng Nghymru




# Ein nod a'n hamcanion

9 Ein nod yw sicrhau bod pobl Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn gwybod a yw arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth. Mynegir hyn fel canlyniad yr ydym yn cyfrannu'n allweddol tuag ato yn sgil ein statws hollol annibynnol, ein harbenigedd proffesiynol a'n hawliau eang i gael mynediad at wybodaeth trwy bwerau a swyddogaethau archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol.

10 Mae ein tri amcan cyntaf yn canolbwyntio ar gyflawni'r hyn yr ydym yn ei gredu yw diben triphlyg archwiliad yn effeithiol - darparu sicrwydd, cynnig mewnwelediad a hyrwyddo gwelliant.

11 Mae ein pedwerydd amcan yn ategu'r tri cyntaf; er mwyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaeth archwilio o safon uchel, rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru fod yn sefydliad atebol sy'n cael ei redeg yn dda, yn ennyn parch ac sy'n sicrhau gwerth am arian ac sy'n darparu amgylchedd ysgogol a gwobrwyol i weithio ynddo.

## Gwneud i arian cyhoeddus gyfrif



# Yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo

12 Gan ystyried yr ymatebion i'r **Ymgynghoriad ar ein strategaeth ddrafft ar gyfer 2017-2020**, rydym yn credu mai'r ffactorau a ganlyn fydd yn dylanwadu fwyaf ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ein gwaith ac yn bodloni ein nod a'n hamcanion dros y tair blynedd nesaf.

## Mae hwn yn parhau i fod yn gyfnod lle mae arian yn brin

13 Mae'r rheini sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn dal i wynebu gostyngiadau mewn termau real i'w cyllidebau blynyddol. Ar yr un pryd, maent yn ceisio bodloni disgwyliadau cyhoeddus cynyddol a galwadau demograffeg newidiol, a chadw a gwella'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu.

14 Amlinellodd ein hadroddiad, **Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2015**, fod y pwysau ariannol y mae gwasanaethau cyhoeddus wedi'u hwynebu ers 2010-11 yn debygol o barhau dros y tymor canolig. Gwnaeth bron pob un a ymatebodd i arolwg o arweinwyr y sector cyhoeddus a gynhaliwyd fel rhan o'r astudiaeth honno nodi pwysau ariannol fel un o dair her fawr y dyfodol.

15 Bydd angen i wasanaethau cyhoeddus wneud newidiadau radical i'r ffordd y maen nhw'n darparu gwasanaethau ac yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau os ydynt am adeiladu'n effeithiol ar y dull fwyfwy cydweithredol sy'n cael ei fabwysiadu yng Nghymru. Gyda llawer o arweinwyr yn y gwasanaethau cyhoeddus yn disgwyl gwneud mwy o doriadau i wasanaethau, mae angen dull gweithredu mwy cyfannol a hirdymor i leihau'r effeithiau ar y cyhoedd.

## Mae'r cyd-destun gwleidyddol a'r cyd-destun polisi yn parhau i esblygu

16 Mae ystod eang o ffactorau polisi a ffactorau gwleidyddol yn debygol o ddylanwadu ar y ffordd y byddwn yn cyflawni ac ariannu ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf. Yn eu plith mae:

**Goblygiadau canlyniad refferendwm yr UE**

Er na ellir llwyr asesu'r effaith y bydd 'Brexit' yn ei chael ar gyllid cyhoeddus Cymru a'n gwaith ar hyn o bryd, gallwn fod yn weddol sicr y bydd cyllid amaethyddol presennol yr UE a'r gwaith archwilio cysylltiedig yn dod i ben.

**Newidiadau i'r cyd-destun datganoli**

Mae Deddf Cymru 2017 yn newid ffurf datganoli o'r model rhoi pwerau i fodel cadw pwerau, gan roi'r cyfle i gyrff cyhoeddus newydd gael eu creu.

**Datganoli cyllidol**

Bydd rhai pwerau codi trethi a benthyca yn cael eu trosglwyddo o San Steffan i Gymru erbyn 2018, a bydd yn rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol wneud gwaith archwilio newydd priodol.

**Sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynigion i weithio'n rhanbarthol mewn llywodraeth leol**

Ochr yn ochr â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol a sefydlwyd yn ddiweddar o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae lefel uwch o gynllunio rhanbarthol wedi'i chynnig ar gyfer gwasanaethau llywodraeth leol yng Nghymru, gyda diwygiadau cysylltiedig i fecanweithiau cyllido a chynnydd yng nghymhlethdod modelau llywodraethu.

**Gofyniad i gau cyfrifon llywodraeth leol yn gynharach**

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu symud dyddiadau cau ar gyfer paratoi, archwilio a chyhoeddi cyfrifon cyrff llywodraeth leol yng Nghymru ymlaen erbyn 2020-21.

**Diwygiadau i gyllid grant a threfniadau ardystio**

Yn dilyn adolygiad diweddar o'r broses ar gyfer archwilio grantiau a roddir i awdurdodau lleol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol wedi ymrwymo i ganolbwyntio o'r newydd ar y rhesymeg archwilio trwy roi mwy o bwyslais ar y canlyniadau a gyflawnwyd.

**Newidiadau i gyfraith a pholisi cyflogaeth**

Mae datblygiadau allweddol sydd wedi'u hamserlennu yn cynnwys cyflwyno ardoll prentisiaeth, rheoliadau adrodd ar y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau, cynnydd mewn Cyflogau Byw ac Isafswm Cyflogau Cenedlaethol, a safonau diogelu data newydd Ewropeaidd.

## Mae bellach yn ofynnol ehangu cwmpas trefniadau llywodraethu

17 Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gosod mwy o ofynion cyfreithiol ar y sector cyhoeddus yng Nghymru er mwyn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy diffiniedig. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 fynd ati i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud hyn, mae'n rhaid iddynt bennu a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i gyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, ac yna mynd ati i wneud yn siŵr eu bod yn bodloni'r amcanion hynny.

18 Daeth y dyletswyddau llesiant ar y 44 o gyrff cyhoeddus a restrir, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i rym ar 1 Ebrill 2016. Mae'n rhaid pennu a chyhoeddi amcan llesiant cyntaf y cyrff hynny erbyn 1 Ebrill 2017. Wedi hyn, bydd angen i'r cyrff a restrir adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaethpwyd tuag at fodloni eu hamcanion.

19 O dan Adran 15 o'r Ddeddf, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio i ba raddau y mae'r cyrff cyhoeddus a restrir wedi ymddwyn yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy y Ddeddf wrth osod amcanion llesiant, ac wrth gymryd camau i fodloni'r amcanion hynny.

## Rydym yn byw mewn cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy

20 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae datblygiadau ym maes technoleg gwybodaeth wedi arwain at ddefnyddio mwy a mwy o ddulliau digidol i ddarparu gwasanaethau, rhoi mwy o gyfleoedd i'r cyhoedd gael gafael ar ddata, a chreu cyfleoedd a ffyrdd newydd o ryngweithio gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau cyfathrebu digidol eraill.

21 Mae trawsnewid a chynhwysiant digidol yn rhan ganolog o gynlluniau Llywodraeth Cymru i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy hygyrch ac ystyrlon i'w defnyddwyr, ac i gyflawni canlyniadau gwell.

22 Mae cymdeithas sydd wedi'i rhwydweithio fwyfwy yn cyflwyno goblygiadau i fwy na'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio yn unig. Mae hefyd yn cael effaith eithaf sylweddol ar asiantaethau archwilio a chyrff arolygu allanol eraill. Mae angen i ni wybod hefyd am y datblygiadau technolegol diweddaraf a'r cyfleoedd a'r risgiau cysylltiedig a ddaw law yn llaw â'r rhain, a manteisio ar ffyrdd newydd o gasglu gwybodaeth, adrodd ar ganfyddiadau a chael cymaint â phosibl o ymwybyddiaeth o'n gwaith ac ymgysylltiad â'r gwaith hwnnw.

# Ein strategaeth

23 Yng ngoleuni'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo, mae ein Cynllun i gyflawni ein rhaglenni gwaith yn ystod 2017-18 a thros y tair blynedd rhwng 2017 a 2020 yn cael ei ategu gan bum thema strategol lefel uchel.

**Adrodd ag awdurdod ynghylch a yw cyrff cyhoeddus yn ymddwyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy**

Bydd ein hystyriaeth o adnoddau ariannol, a'r ffordd y bydd cyrff cyhoeddus yn cael eu dwyn i gyfrif am eu defnyddio, yn cael eu hintegreiddio fwyfwy ag ystyriaeth o'u stiwardiaeth o adnoddau dynol ac adnoddau naturiol.

**Cefnogi rheolaeth ariannol gadarn yn y sector cyhoed-dus mewn cyfnod o gyni**

Byddwn yn rhoi pwyslais cynyddol ar bwysigrwydd atgyfnerthu rheolaeth ariannol ar draws sector cyhoeddus Cymru a gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y defnydd o adnoddau ac asedau cyhoeddus.

**Defnyddio data yn fwy effeithiol a chroesawu'r dechnoleg ddiweddaraf**

Byddwn yn herio ein defnydd presennol o ddata a thechnoleg, trwy gwestiynu yr hyn yr ydym fel arfer yn ei gymryd yn ganiataol a datblygu datrysiadau ar sut y gallem ddefnyddio technoleg newydd i weddnewid ein prosesau archwilio a chyfathrebu.

**Symleiddio ein prosesau busnes a chryfhau ein trefniadau llywodraethu**

Bydd effeithlonrwydd cost yn un o'r prif bethau y byddwn yn canolbwyntio arno, ochr yn ochr â gwneud mwy o waith ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'r ffordd yr ydym yn rhedeg ein busnes, a sicrhau y gweithlu, y TGCh, y prosesau caffael a'r strategaethau contractio gorau posibl.

**Adolygu ac addasu ein dull archwilio**

Byddwn yn adolygu ac addasu ein dull archwilio er mwyn sicrhau y gallwn ymateb yn effeithiol i newidiadau yn y dyfodol i'r amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys trwy roi mwy o bwyslais ar ystyried pethau o safbwynt sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.


# Ein blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf

24 Er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein nod a'n hamcanion cyffredinol, mae'r Archwilydd Cyffredinol a Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi deg maes gwella blaenoriaethol yr ydym yn bwriadu canolbwyntio arnynt yn ystod y tair blynedd nesaf ochr yn ochr â rhaglen waith archwilio statudol yr Archwilydd Cyffredinol, neu'n rhan ohoni.

| | Blaenoriaethau |
|---|---|
| 1 | Datblygu dull gweithredu, trwy weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| 2 | Canolbwyntio ar waith sy'n archwilio trefniadau rhanbarthol ac eraill o weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y rhyngwyneb rhwng darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| 3 | Atgyfnerthu ein hymgysylltiad â'n gwaith ymhlith pwyllgorau'r Cynulliad, a dod o hyd i ffyrdd o wella ein gwaith ar gefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol ymhellach. |
| 4 | Gwella effaith gyfunol prosesau archwilio, arolygu ac adolygu allanol yng Nghymru trwy weithio'n agosach ag Arolygu Cymru a phartneriaid eraill a thrwy ddefnyddio gwybodaeth ac adnoddau ar y cyd yn well. |
| 5 | Hwyluso'r gwaith o weddnewid archwiliadau mewn modd strategol, trwy wella ein defnydd o ddata a thechnoleg, a'n dulliau cyfathrebu. |
| 6 | Adolygu ein model ar gyfer defnyddio adnoddau archwilio i baratoi ar gyfer y newidiadau sydd i ddod i'n hamgylchedd gweithredu, gan gynnwys yn benodol, cyflwyno dyddiadau cau cynt ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol. |
| 7 | Adnewyddu ein strategaeth bobl ac ysgogi newid diwylliant yn Swyddfa Archwilio Cymru trwy ymwreiddio fframwaith newydd o werthoedd ac ymddygiadau cytunedig. |
| 8 | Llunio a chymhwyso cynlluniau gweithredu sydd â'r nod o leihau ein bylchau cyflog o ran rhyw, oedran ac ethnigrwydd a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â safonau newydd yr Iaith Gymraeg. |
| 9 | Datblygu cynigion ar gyfer symleiddio a gwella effeithiolrwydd cost y trefniadau ariannu ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, i'w hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol. |
| 10 | Cynyddu ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid a'n defnydd o feincnodi allanol i helpu i wella effaith ein gwaith. |

# Ein rhaglenni gwaith arfaethedig

25 Gellir rhannu ein rhaglenni gwaith arfaethedig ar gyfer 2017-18 yn chwe adran, sy'n cydweddu â'n hamcanion fel y dangosir isod, ac sy'n seiliedig ar ein pum thema strategol lefel uchel.




26 Mae pedair adran gyntaf y Cynllun yn ymwneud â rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol. Amlinellir blaenoriaethau'r Archwilydd Cyffredinol pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau yn 2017-18 yn yr atodiadau canlynol:

**Atodiad 1 – Prosiectau archwilio**

**Atodiad 2 – Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol**

**Atodiad 3 – Gwaith arferion da**

**Atodiad 4 – Gweithgareddau ymgysylltu a chydweithio**

27 Mae'r ddwy adran o'r Cynllun sydd ar ôl yn ymwneud â rhaglen waith Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru. Amlinellir blaenoriaethau'r Bwrdd wrth gyflawni ei swyddogaethau yn 2017-18 yn yr atodiadau canlynol:

**Atodiad 5 – Ein trefniadau llywodraethu ac arwain**

**Atodiad 6 – Ein defnydd o adnoddau**

28 Caiff yr adnoddau sydd ar gael i Swyddfa Archwilio Cymru, ac a all fod ar gael iddi, yn unol â'r **Amcangyfrif o'r Incwm a'r Treuliau ar gyfer y Flwyddyn a ddaw i ben 31 Mawrth 2018** cymeradwy, eu defnyddio i gyflawni'r rhaglenni gwaith hyn.

# Mesur ein perfformiad ac adrodd arno

29 Yn ystod 2017-18 a thros y tair blynedd nesaf, byddwn yn defnyddio cyfuniad o ddulliau meintiol ac ansoddol o fesur, adrodd ac ystyried ein perfformiad a’n risgiau. Bydd hyn yn cynnwys adrodd yn rheolaidd i’n Pwyllgor Rheoli a’n Bwrdd ar y cynnydd sy’n cael ei wneud ar gyflawni ein blaenoriaethau a chyrraedd ein targedau o ran dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd hefyd yn cynnwys adroddiadau archwilio mewnol i’n Pwyllgor Rheoli a’n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg. Byddwn yn rhoi pwyslais penodol ar werthuso ein cyfeiriad teithio a chyflymder y gwella, ochr yn ochr â gwneud cymariaethau â meincnodau priodol.

30 Byddwn yn adrodd yn allanol ar ein perfformiad trwy ein **Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon** ac **Adroddiad(au) Interim**, a thrwy ddarparu tystiolaeth yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol.

31 Mae ein fframwaith o ddangosyddion perfformiad allweddol yn seiliedig ar y themâu a’r cwestiynau canlynol ynglŷn â’n gweithgareddau. Datblygwyd ein cyfres o dargedau gan gyfeirio at lefelau perfformio presennol, meincnodau allanol priodol a’n dyheadau gwella ein hunain. Byddwn yn craffu ar y targedau ymhellach ac yn eu gloywi yn ystod 2017-18 er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon heriol, ond yn gyraeddadwy o fewn yr amserlenni a nodwyd. Yn ystod y flwyddyn, byddwn ni hefyd yn rhoi rhagor o ystyriaeth i sut yr ydym yn mesur effaith ein gwaith.

**Effaith**
I ba raddau mae ein gwaith yn hysbysu pobl Cymru a’r Cynulliad Cenedlaethol, yn helpu cyrff cyhoeddus yng Nghymru i lwyddo, ac yn cael ei werthfawrogi gan ein rhanddeiliaid?

**Cyflawni**
A ydym yn cyflawni ein harchwiliadau yn brydlon ac a ydynt o’r ansawdd a’r safon broffesiynol ofynnol?

**Arweinyddiaeth**
A yw ein trefniadau llywodraethu ac arwain yn gweithredu’n effeithiol?

**Ariannol**
Pa mor dda yr ydym yn rheoli ein cyllid a’n hasedau?

**Cymdeithasol**
Pa mor dda yr ydym am hyrwyddo a chefnogi cydraddoldeb, llesiant a dysgu?

**Amgylcheddol**
Pa mor dda yr ydym am reoli ein heffaith ar yr amgylchedd?

**Cyfathrebu**
Pa mor dda yr ydym am godi ymwybyddiaeth o’n gwaith ac annog pobl i ymgysylltu â’n gwaith?

**Atodiad 7 - Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau**

# Atodiad 1 - Prosiectau archwilio

## Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth leol

Mae rhaglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ym maes llywodraeth leol yn cynnwys ystod eang o gyrff, gan gynnwys awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol, comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid, cronfeydd pensiwn llywodraeth leol a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwilio cyfrifon, ardystio ffurflenni a hawliadau grant, cyflawni archwiliadau ac asesiadau gwella, astudiaethau llywodraeth leol a gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

### Archwilio cyfrifon

22 o awdurdodau unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

4 comisiynydd heddlu a throseddu

4 prif gwnstabl

8 cronfa bensiwn

Nifer o gyrff llywodraeth leol llai, gan gynnwys cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr

Archwiliadau sicrwydd cyfyngedig o 740 o gynghorau tref a chymuned

### Astudiaethau llywodraeth leol

Comisiynu gwasanaethau anableddau dysgu gan awdurdodau lleol mewn modd strategol

Gwella lles trwy addasu tai

Sut mae llywodraeth leol yn rheoli'r galw (gwasanaethau digartrefedd)

### Archwiliadau ac asesiadau gwella

22 o awdurdodau unedol (gan gynnwys adolygiadau â thema o graffu a safbwynt defnyddwyr)

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

22 o awdurdodau unedol

3 awdurdod tân ac achub

3 awdurdod parc cenedlaethol

### Ardystio ffurflenni a hawliadau grant

Hyd at 20 o gynlluniau sy'n werth bron £3 biliwn ac sy'n ymwneud ag oddeutu 300 o hawliadau unigol

Adroddiadau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

# Gwaith archwilio i'w wneud gan gyrff y GIG

Mae gwaith yr Archwilydd Cyffredinol ar draws GIG Cymru yn cwmpasu'r saith bwrdd iechyd lleol a'r tair ymddiriedolaeth GIG, yn ogystal â gwaith Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyfrifon blynyddol pob un o gyrff y GIG, ac mae'n adrodd yn gyhoeddus ar y trefniadau sydd ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio'u hadnoddau mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol ac a yw'r cyrff a restrwyd yn ymddwyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

### Archwilio cyfrifon

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth y GIG
Cyfrifon cryno bwrdd iechyd lleol
Cyfrifon cryno ymddiriedolaethau'r GIG

### Asesiadau strwythuredig

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth y GIG
Cymhariaeth Cymru Gyfan o agweddau ar lywodraethu

### Gwaith archwilio ar berfformiad lleol

7 bwrdd iechyd lleol
3 ymddiriedolaeth y GIG

### Astudiaethau iechyd

Gwasnanethau meddygon teulu allan i oriau
Cynlluniau rhyddhau
Gwasanaethau gofal sylfaenol

### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

7 bwrdd iechyd lleol
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Gwaith archwilio mewn cyrff llywodraeth ganolog

Mae sector llywodraeth ganolog Cymru yn cwmpasu ystod amrywiol o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi, swyddfeydd comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr statudol amrywiol, a Chomisiwn y Cynulliad Cenedlaethol.

Yn wahanol i gyrff iechyd a chyrff llywodraeth leol, nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gyflawni rhaglen o waith archwilio perfformiad ym mhob corff llywodraeth ganolog. Yn hytrach, mae'n rhoi barn flynyddol ar eu cyfrifon yn unig ac, o ran y cyrff a restrwyd, mae'n gwneud gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith archwilio perfformiad a wneir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o astudiaethau gwerth am arian.

### Cyfrifon Llywodraeth Cymru

- Cyfrifon cyfnerthedig Llywodraeth Cymru
- Cyfrif ardrethu annomestig
- Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru
- Cyfrifon Llywodraeth Gyfan
- Cymeradwyo taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru

### Cyfrifon cyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Celfyddydau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Prif Gyfrifon a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru
- Cronfa Loteri Cyngor Chwaraeon Cymru
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Cymwysterau Cymru

### Cyfrifon Cynulliad Cenedlaethol Cymru

- Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cronfa Bensiwn Aelodau'r Cynulliad

### Cyfrifon comisiynwyr, arolygwyr a rheoleiddwyr

- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Estyn
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

### Cwmnïau Llywodraeth Cymru

- Hybu Cig Cymru
- Dewis Gyrfa
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Sector Development Wales

### Gwaith archwilio ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

- Gweinidogion Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru

# Gwaith archwilio i’w ystyried gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Mae’r rhaglen hon o waith archwilio yn cynnwys ymchwiliadau gwerth am arian, paratoadau ar gyfer adroddiadau cryno am ganfyddiadau gwaith archwilio ar draws amryw o gyrff y GIG, cyrff llywodraeth ganolog a/neu gyrff llywodraeth leol, ac ymchwiliadau a gyflawnir yng ngoleuni materion sy’n peri pryder i’r cyhoedd sy’n codi o’n gwaith archwilio neu sy’n dod i sylw’r Archwilydd Cyffredinol. Mae allbynnau rhan helaeth o’r rhaglen hon yn ategu gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a phwyllgorau eraill y Cynulliad o bosibl.

Mae rhywfaint o’r gwaith a restrir isod, ond nid y cyfan ohono, eisoes ar waith a bydd angen adrodd ar hyn yn ystod 2017-18. Mae’r rhaglen waith yn cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn ymateb i amgylchiadau, blaenoriaethau a risgiau newidiol, ac rydym yn ymgysylltu ar hyn o bryd gyda’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y blaenoriaethau ar gyfer gwaith yn y dyfodol gyda’r bwriad o ddechrau nifer o astudiaethau gwerth am arian ychwanegol yn ystod ail hanner 2017-18. Gall allbynnau ychwanegol hefyd ymddangos yn ystod 2017-18 yn sgil archwiliadau a wneir mewn ymateb i faterion sy’n peri pryder i’r cyhoedd neu gan raglenni gwaith archwilio lleol pan fydd materion neu ddysgu o berthnasedd ehangach.

### Astudiaethau gwerth am arian

- Ysgolion yr 21ain ganrif a'r rhaglen addysg
- Adolygiad o gefndir caffael cyhoeddus
- Rheoli gwastraff (atal gwastraff)
- Rheoli gwastraff (ailgylchu trefol)
- Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 (cynlluniau tymor canolig integredig)
- Rhaglen Cefnogi Pobl
- Gwasanaethau Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)
- Mynediad at wasanaethau cyhoeddus gyda chymorth dehongli a chyfieithu arbenigol
- Cyllid busnes
- Gwasanaethau ieuenctid
- Gwasanaethau gofal sylfaenol
- Rheoli gwastraff (caffael seilwaith trin gwastraff)
- Paratoadau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru (adroddiad dilynol i'w ystyried gan y Pwyllgor Cyllid)

### Adroddiadau cryno

- Radioleg (yn gysylltiedig fel y bo'n briodol ag adrodd NWIS)
- Trefniadau comisiynu ambiwlansau brys

### Archwiliadau adweithiol

- Cylchffordd Cymru
- Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ynny Sir Gâr Cyf

# Atodiad 2 - Cefnogi gwaith craffu ac atebolrwydd effeithiol

## Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Cynulliad

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol mewn cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wrth iddo ystyried materion sy'n ymwneud â defnydd adnoddau i gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Gall ein gwaith hefyd, pan fo'n briodol, lywio gwaith pwyllgorau eraill y Cynulliad Cenedlaethol sydd â chylch gwaith ehangach sy'n cynnwys craffu ar wariant a pholisïau Llywodraeth Cymru, dwyn Gweinidogion i gyfrif, ac archwilio deddfwriaeth arfaethedig.

Yn ystod 2017-18, byddwn yn parhau i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gynnwys adroddiadau cyhoeddedig yr Archwilydd Cyffredinol, a fydd yn helpu'r Pwyllgor i bennu ei gamau gweithredu dilynol. Byddwn hefyd yn darparu mwy o gyngor a chymorth i'r Pwyllgor fel y bo angen, yn enwedig mewn cysylltiad â:

a datblygu briffiau aelodau ar gyfer sesiynau tystiolaeth gyda thystion o Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill;

b datblygu adroddiadau'r Pwyllgor; a

c darparu cyngor ar ba mor ddigonol yw ymatebion ffurfiol Llywodraeth Cymru i argymhellion adroddiadau'r Pwyllgor

## Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus

Trwy gydol y flwyddyn, byddwn yn mynd i'r rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgorau archwilio'r prif gyrff yr ydym yn eu harchwilio er mwyn darparu adroddiadau a'u briffio'n rheolaidd ar ein gwaith archwilio.

Byddwn hefyd yn darparu mwy o gyngor a chymorth i bwyllgorau archwilio a chraffu, fel y bo'n berthnasol, yn enwedig mewn cysylltiad â:

a darparu cymorth ac arweiniad i gadeiryddion pwyllgorau er mwyn eu cefnogi i fod yn fwy effeithiol yn eu swydd; a

b darparu cyfleoedd seminar arferion da a sesiynau codi ymwybyddiaeth i aelodau'r pwyllgor ar faterion sy'n hynod berthnasol.

# Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr etholedig lleol

Rydym yn cael **gohebiaeth** yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr etholedig lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch stiwardiaeth arian ac asedau cyhoeddus. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn 'unigolyn rhagnodedig' ar gyfer codi pryderon **chwythu'r chwiban** ynghylch ymddygiad priodol busnes cyhoeddus a thwyll, gwerth am arian a llygredd o ran gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir.

Yn ystod 2017-18, byddwn yn parhau i wneud yn siŵr ein bod yn:

a ymateb i bryderon y cyhoedd yn brydlon, ac mewn modd teg, gwrthrychol a phroffesiynol;

b gwerthfawrogi pwysigrwydd y materion i'r bobl hynny sydd wedi mynd i'r drafferth o dynnu sylw atynt;

c cyhoeddi adroddiadau archwiliadau pan fyddwn yn ystyried bod gwerth gwneud hyn; a

ch sicrhau nad ydym yn defnyddio arian cyhoeddus i edrych ar faterion nad ydynt yn berthnasol i'n gwaith archwilio, nac yn treulio gormod o amser ar faterion dibwys.

# Atodiad 3 - Gwaith ar Arferion Da

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu a chymhwyso dull o gyfnewid gwybodaeth gyda llwyddiant cynyddol. Mae ein dull yn cynnwys dau brif faes gweithgarwch, ac mae un ohonynt yn ymwneud â darparu adnoddau am ddim ar-lein i sicrhau bod modd i'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaethau, darparwyr gwasanaethau, llunwyr polisïau a'r rhai sy'n penderfynu ar bolisïau gael gafael ar wybodaeth a fydd yn eu gwneud yn fwy gwybodus. Yn benodol, ein nod yw hyrwyddo camau i rannu'r wybodaeth hon ar draws ffiniau sefydliadol, daearyddol a rhyngwladol.

Mae'r maes gweithgarwch arall yn ymwneud â hwyluso trafodaethau rhwng darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau lle mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu o lwyddiannau a methiannau cymharol yn cael eu rhannu wyneb yn wyneb. Yn gynyddol, rydym yn ceisio cynnwys safbwyntiau a phrofiadau arbenigwyr byd-eang yn y trafodaethau hyn.

Mae ein rhaglen o seminarau a gweminarau y Gyfnewidfa Arfer Da yn hyblyg a bydd rhagor o bynciau yn cael eu hychwanegu yn ystod y flwyddyn. Gellir cael rhagor o wybodaeth am ein **Rhaglen waith ar arferion da**, gan gynnwys ein llyfrgell o astudiaethau achos, ar ein gwefan.

## Seminarau dysgu a rennir

- Risgiau a reolir yn dda
- Gwell arweinyddiaeth a pherchnogaeth digidol
- Cysylltu â'r dinesydd gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol
- Cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar
- Modelau cyflenwi eraill
- Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus - diben craffu
- Cynlluniau rhyddhau o'r ysbyty
- Ymwreiddio diwylliant Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

## Webinarau dysgu a rennir

- Llywodraethu hyd braich
- Safonau agored
- Mesur canlyniadau: pwy sy'n ei wneud a sut
- Cynllunio'r gweithlu
- Cael canlyniadau gwell o gaffael gwasanaethau cyhoeddus

## Canllawiau arfer da

- Cau cyfrifon llywodraeth leol yn gynnar

## Hwyluso dysgu a rennir yn allanol a chymorth cymunedol

- Ysgol haf Academi Cymru
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Arfer Da Cymru
- Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr
- Rhwydwaith Cyfarwyddwyr Cyllid GIG Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Un Llais Cymru
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Canolfan Newid Ymddygiad Cymru, Prifysgol Bangor
- Comisiynydd y Gymraeg
- Conffederasiwn GIG Cymru
- Gweithio gyda grwpiau ymarferwyr cyd-gynhyrchu Not To

# Atodiad 4 - Gweithgareddau ymgysylltu a chydweithio

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymrwymo i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid i osod sylfaen ar gyfer datblygu gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, i sicrhau ei fod mor berthnasol â phosibl ac i estyn ei gyrhaeddiad a'i effaith.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i gydweithio'n agos â holl asiantaethau archwilio eraill y DU drwy'r Fforwm Archwilio Cyhoeddus, ac â phrif gyrff adolygu allanol eraill yng Nghymru drwy fenter Arolygu Cymru, i gynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwaith archwilio cyhoeddus, ac effaith gyfun ein gwaith. Rydym ni hefyd yn falch o gynrychioli Cymru ar y llwyfan archwilio rhyngwladol o bryd i'w gilydd.

Gall Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau i'r Swyddfa ei hun neu'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwasanaethau i rai mathau o gyrff neu arfer eu swyddogaethau, yn y DU a thramor. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli y dylai unrhyw weithgarwch o'r fath allu ariannu ei hun, ac na ddylid ei gyflawni ar draul ein gwaith archwilio craidd yng Nghymru.

## Darpariaeth gydgysylltiedig

Menter Twyll Genedlaethol gydag asiantaethau archwilio eraill y DU

Cydweithio ag Estyn i gynnal arolygiadau dilynol o'r Consortia Gwella Addysg Rhanbarthol a'i gynorthwyo i ddarparu cynaladeddau gwella

Ardystio cyfrifon Cronfa Amaethyddol Ewrop yn flynyddol

Cyflawni adolygiad dilynol ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o drefniadau llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Llunio memorandwm cyd-ddealltwriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

## Cymryd rhan fel sylwedydd ar weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

Cyngor Partneriaeth Cymru

Bwrdd Rhaglen Weithredu Awdurdod Cyllid Cymru

Fforwm Trethi Cymru y Gweinidog Cyllid

Bwrdd Fframwaith Arolygu Awdurdod Lleol AGGCC

Bwrdd Uned Data'r Llywodraeth Leol

Grŵp Gwella Effeithlonrwydd, Gofal Iechyd a Gwerth GIG Cymru

Gweithgor Penodiadau Cyhoeddus

## Aelodaeth o weithgorau allanol

Mae'r rhain yn cynnwys:

EURORAI

Rhwydwaith Arloesi Sector Cyhoeddus y Cyngor Rhyngwladol ar Adrodd Integredig

Fforwm Archwilio Cyhoeddus

Bwrdd Cod Awdurdodau Lleol CIPFA/LASAAC

Pwyllgor Archwilio'r Sector Cyhoeddus ICAEW

Panel Safonau Archwilio a Chyfrifyddu CIPFA

Menter Arolygu Cymru

Grŵp cyswllt yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Ddiwygio Lles a'r Budd-dal Tai ar gyfer arolygiaethau'r DU

Grŵp Cynghori Sector Cyhoeddus y Cyngor Adrodd Ariannol

Cymryd rhan mewn Protocol Uwchgyfeirio ac Ymyrryd gyda Llywodraeth Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Gwaith archwilio a gomisiynwyd

Archwilio amrywiaeth o elusennau

Gweithredu fel Prif Archwilydd Llywodraeth Anguilla ac archwilio'r cyfrifon

Grwpiau meincnodi gwastraff masnachol a rheoli gwastraff

# Atodiad 5 - Ein trefniadau llywodraethu ac arwain

Fel y nodwyd yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, rydym mewn sefyllfa unigryw o gael aelodau gweithredol ac anweithredol ar Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â dau aelod a etholwyd gan gyflogeion sy'n darparu elfen arall o fewnwelediad a phrofiad.

## Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru



David Corner

Aelod Anweithredol



Amanda Hughes

Aelod a etholwyd o blith y staff



Kevin Thomas

Aelod a benodwyd o blith y staff



Steve Burnett

Aelod Anweithredol ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol



Isobel Garner

Cadeirydd Anweithredol



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Prif Weithredwr



Lindsay Foyster

Aelod Anweithredol



Peter Price

Aelod Anweithredol



Louise Fleet

Aelod a etholwyd o blith y staff

**Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am y canlynol:**

Monitro arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Rhoi cyngor i'r Archwilydd Cyffredinol

Cyflogi staff a darparu adnoddau i gyflawni swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol

Codi ffioedd am waith a wneir gan yr Archwilydd Cyffredinol

Ar y cyd â'r Archwilydd Cyffredinol, paratoi cynllun blynyddol ac amcangyfrif o incwm a chostau

Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd Bwyllgor Rheoli i ddarparu proses glir o adrodd ac atebolrwydd, ac i alluogi gwaith yr Archwilydd Cyffredinol i hysbysu'r cyhoedd a dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol.

## Pwyllgor Rheoli Swyddfa Archwilio Cymru



Huw Vaughan Thomas

Archwilydd Cyffredinol, Swyddog Cyfrifyddu a'r Prif Weithredwr



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Ariannol



Gillian Body

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol a Phennaeth Archwilio Perfformiad



Jane Holownia

Arweinydd Sector, Llywodraeth Leol a Chyfiawnder Troseddol



Mike Usher

Arweinydd Sector, Iechyd a Llywodraeth Ganolog



Kevin Thomas

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



Steve O'Donoghue

Cyfarwyddwr Cyllid ac AD

Dyma'r prif agweddau ar raglen waith Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017-18:

a darparu'r adnoddau sydd eu hangen ar yr Archwilydd Cyffredinol i gyflawni rhaglen waith 2017-18 yr Archwilydd Cyffredinol;

b sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn sefydliad a reolir yn dda, sy'n atebol ac sy'n ennyn parch, ac yn lle gwych i weithio ynddo;

c sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn parhau i gael eu hymwreiddio yn y sefydliad, a'n bod yn ymateb yn effeithiol i ganfyddiadau ac argymhellion adolygiadau allanol o effeithiolrwydd y Bwrdd; ac


ch monitro cyflawniad y Cynllun hwn.


# Atodiad 6 - Ein defnydd o adnoddau

Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu ar ein defnydd o adnoddau, ac yn ystyried ein Hamcangyfrif, **Cynllun Ffioedd**, **Adroddiad(au) Interim** a'n **Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon**, trwy'r Cynllun hwn.

Daw tua dau draean o gyllid Swyddfa Archwilio Cymru o ffioedd a godir ar y cyrff sy'n cael eu harchwilio yn unol â'r Cynllun Ffioedd a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Daw'r gweddill o'r cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, a bydd y Bwrdd yn craffu ar ein defnydd o'r cyllid hwn yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn.

Nodir ein prif flaenoriaethau o ran defnyddio'r adnoddau yn 2017-18 yn ein **Hamcangyfrif** diweddaraf, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2016. Mae £15.6 miliwn o'r gwariant arfaethedig yn ymwneud ag adnoddau a fydd yn cael eu cynnig i'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei raglen waith[1]. Mae £6.1 miliwn arall yn darparu gwasanaethau galluogi corfforaethol amrywiol, gan gynnwys llety a gwasanaethau cymorth eraill, megis cyngor cyfreithiol, TGCh ac AD[2].




Fel yr amlinellir yn ein Hamcangyfrif a'n Hadroddiad Interim diweddar, rydym ar hyn o bryd yn datblygu cynigion i symleiddio a gwella effeithiolrwydd cost trefniadau ariannu Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid yn fuan ar ein cynigion drafft ac yn cyflwyno canlyniadau yr ymgynghoriad hwnnw i'r Pwyllgor Cyllid.

1 Dyma uchafswm yr adnoddau sydd ar gael, ac a allai fod ar gael, y mae disgwyl i Swyddfa Archwilio Cymru eu dyrannu i'r Archwilydd Cyffredinol at ddiben ymgymryd â'i raglen waith.

2 Tybir mai dyma'r adnoddau sy'n ofynnol i gefnogi rhaglen waith Swyddfa Archwilio Cymru.

# Atodiad 7 - Dangosyddion perfformiad allweddol a thargedau

## Effaith

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| I1 | Argymhellion a dderbyniwyd | Cyfran yr argymhellion neu'r cynigion ar gyfer gwella sydd wedi'u derbyn yn llwyr i'w gweithredu gan y cyrff sy'n cael eu harchwilio | 90 y cant |
| I2 | Arbedion a bennwyd | Gwerth yr arbedion posibl a bennwyd drwy ein gwaith | O leiaf £8 miliwn yn 2017-18 a £24 miliwn yn 2017-2020 |
| I3 | Hygrededd | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod yr Archwilydd Cyffredinol yn sylwebydd annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a gwarchod arian ac asedau cyhoeddus | O leiaf 90 y cant |
| I4 | Mewnwelediad | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, drwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall | O leiaf 80 y cant |
| I5 | Gwelliant | Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at wella'r gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir | O leiaf 80 y cant |

## Cyflawni

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| D1 | Yn brydlon | Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol[3] a gyflawnir yn brydlon | 95 y cant |
| D2 | Adroddiadau cenedlaethol | Nifer yr adroddiadau cenedlaethol a gyhoeddwyd | 14 y flwyddyn |
| D3 | Arfer da | Nifer y cynhyrchion arfer da a gyflawnwyd, gan gynnwys seminarau a gweminarau | 20 y flwyddyn |
| D4 | Ansawdd | Cyfran yr archwiliadau a gyflawnir yn unol â'r safonau ansawdd gofynnol | 100 y cant o'r sampl blynyddol |
| D5 | Cymeradwyo taliadau | Cyfran y ceisiadau i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru a brosesir cyn pen 24 awr ar ôl i'r wybodaeth ofynnol ddod i law | 100 y cant |

3 O ran archwilio ariannol, barn ar gyfrifon pob prif awdurdod cyhoeddus yw ein cynnyrch archwilio allweddol. O ran archwilio perfformiad, mae ein cynnyrch allweddol yn eithrio dim ond nifer fach o adroddiadau archwilio lleol nad ydynt yn rhan o adolygiadau thematig ehangach

# Arweinyddiaeth

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| L1 | Hyder | Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd fod ganddynt hyder yn ein gwaith | O leiaf 90 y cant |
| L2 | Ymgysylltu | Cyfran y staff sy’n teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth glir o ddiben y sefydliad | O leiaf 85 y cant |
| L3 | Ymddiriedolaeth a chymhelliant | Cyfran y staff sy'n teimlo bod eraill yn ymddiried ynddynt i gyflawni eu swydd yn effeithiol | O leiaf 85 y cant |
| L4 | Gwelliant parhaus | Cyfran y staff sy’n teimlo bod y bobl yn eu tîm yn cael eu hannog i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau | O leiaf 80 y cant erbyn 2019-20 |
| L5 | Rheoli perfformiad | Cyfran y staff sy’n cytuno bod eu perfformiad yn cael ei werthuso’n deg | O leiaf 95 y cant |

# Ariannol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| F1 | Cydbwysedd Ariannol | Lefel y gwarged ar ddiwedd blwyddyn | O fewn dau y cant o’r gyllideb |
| F2 | Taliadau i gyflenwyr | Cyfran y cyflenwyr sy’n cael eu talu cyn pen 10 diwrnod ar ôl i’r anfoneb ddod i law | O leiaf 85 y cant |
| F3 | Adennill dyledion | Gwerth hen ddyledion dros 60 diwrnod | Llai na £300,000 |
| F4 | Arbedion ac effeithlonrwydd Cost | Gwerth arbedion cost ac effeithlonrwydd a bennir drwy’r busnes | £1 miliwn yn 2017-18 |
| F5 | Effeithlonrwydd yr ystâd | Costau gan gynnwys rhent ac ardrethi fesul aelod staff cyfwerth ag amser llawn | Llai na £3,300 yn 2017-18 |

## Cymdeithasol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| S1 | Absenoldeb oherwydd salwch | Nifer y dyddiau gwaith cyfartalog a gollwyd bob blwyddyn fesul aelod staff | Llai na 6.5 diwrnod |
| S2 | Dysgu a datblygu | Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu priodol pan fydd angen | O leiaf 80 y cant |
| S3 | Triniaeth deg | Cyfran y staff sy'n teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith | O leiaf 80 y cant erbyn 2019-20 |
| S4 | Cydbwysedd bywyd a gwaith | Cyfran y staff sy'n teimlo bod modd iddynt daro cydbwysedd da rhwng eu bywyd gwaith a'u bywyd preifat | O leiaf 80 y cant erbyn 2019-20 |
| S5 | Darpariaeth Gymraeg | Nifer y cwynion sy'n dod i law ynghylch ein darpariaeth Gymraeg | Dim |

## Amgylcheddol

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| E1 | Rheoli amgylcheddol | Lefel achrediad Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd Groundwork Cymru | Lefel 5 (y lefel uchaf) |
| E2 | Allyriadau nwyon tŷ gwydr | Cyfanswm yr allyriadau CO2 cyfatebol o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o'r defnydd o drydan yr ydym yn ei brynu, neu a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau | Llai na 500 o dunelli yn 2017-18 |
| E3 | Gwastraff | Cyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd | Llai na 33 o dunelli yn 2017-18 |
| E4 | Ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio | Cyfran cyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gennym sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu'i gompostio | 70 y cant yn 2017-18 |
| E5 | Papur | Y defnydd o bapur | Llai na 2,200 o rimiau yn 2017-18 |

# Cyfathrebu

| Rhif | Dangosydd | Disgrifiad | Targed |
|---|---|---|---|
| C1 | Gwefan | Nifer yr ymweliadau â thudalennau gwe | 210,000 y flwyddyn |
| C2 | Sylw yn y wasg | Cyfran yr erthyglau am ein gwaith a gyhoeddir yn y cyfryngau sy'n gadarnhaol neu'n niwtral | O leiaf 90 y cant |
| C3 | Cyfryngau cymdeithasol | Sgôr Klout – mesur o'n dylanwad yn y cyfryngau cymdeithasol drwy ddadansoddi gweithgarwch ein cyfrif Twitter | Sgôr o 53 allan o 100 o leiaf yn 2017-18 |
| C4 | Seminarau dysgu ar y cyd | Nifer y bobl sy'n dod i'n seminarau dysgu ar y cyd | 1,000 y flwyddyn |
| C5 | Ymdrin â gohebiaeth | Nifer yr achlysuron pan na chyflwynir ymateb llawn neu interim i bryderon ynghylch gwariant cyhoeddus a godwyd drwy ohebiaeth o fewn 30 diwrnod gwaith i'r ohebiaeth yn dod i law. | Dim |